**RHYBUDD O WNEUD**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Drury New Road, Bwcle) (Terfynau Cyflymder 30mya) 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn bod wedi gwneud wedi gwneud Gorchymyn ar 16 Ionawr 2024 drwy arfer ei bwerau dan Adran 82 (2) (a) ac 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

a) Gosod cyfyngiad cyflymder o 30mya ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen i'r hysbysiad hwn.

**ATODLEN**
**Terfyn Cyflymder 30mya**

**Drury New Road, Bwcle:**
O'i chyffordd â'r A549 i bwynt 125 metr i'r de o'i chyffordd â Mornington Crescent.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 16 Chwefror 2024, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros y Gorchymyn i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, Y Ganolfan Siopa, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NF

Dydd Gwener 19 Ionawr 2024

Dyddiedig 16 Ionawr 2024

# Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint
# (Drury New Road, Bwcle) (Terfynau Cyflymder 30mya) 2024

**<u>GORCHYMYN</u>**

**fel y nodir oddi mewn**


Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Drury New Road, Bwcle) (Terfynau Cyflymder 30mya) 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 82 (2) (a), 84 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn.

3. Ni fydd y ffordd a nodir yn Atodlen y Rhybudd hwn bellach yn Ffordd Gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o'r Ddeddf hon.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 16 Chwefror 2024 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Drury New Road, Bwcke) (Terfynau Cyflymder 30mya) 2024.

**ATODLEN**
**<u>Terfyn Cyflymder 30mya</u>**

**Drury New Road, Bwcle:**
O'i chyffordd â'r A549 i bwynt 125 metr i'r de o'i chyffordd â Mornington Crescent.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar y 16 )
diwrnod hwn o Ionawr 2024 ym mhresenoldeb :- )

2/1/25

**Y CADEIRYDD**

**~~PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)~~**

**~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL~~**

**UWCH GYFREITHIWR**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**(Drury New Road, Bwcle) (Terfynau Cyflymder 30mya) 202x**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN**

Bydd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno terfyn cyflymder 20mya diofyn cenedlaethol ar bob ffordd gyfyngedig yng Nghymru o 17 Medi 2023.

Mae ffyrdd cyfyngedig fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig ac mae ganddynt system o oleuadau stryd.

Mae meini prawf 'lleoliad' wedi'u datblygu i benderfynu ymhle dylid gosod terfynau cyflymder o 20mya, gan ddarparu dull cyson ar draws Cymru.

Meini Prawf Lleoliad
O fewn taith gerdded 100 metr i…

Unrhyw leoliad addysgol e.e. sefydliad addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach neu addysg uwch
Unrhyw ganolfan gymunedol
Unrhyw ysbyty
Lle mae nifer yr eiddo preswyl a/neu fanwerthu sy'n wynebu ffordd yn fwy nag 20 adeilad fesul km

Ni fydd pob ffordd ar hyn o bryd yn addas i'w newid i 20mya. Ym mis Tachwedd 2022 cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'feini prawf eithriadau'. Diben hwn oedd rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i gynghorau lleol i machlud terfynau cyflymder 30mya, lle bo hynny'n briodol, ar rai ffyrdd cyfyngedig. Gelwir y rhain yn 'eithriadau' i'r terfyn cyflymder rhagosodedig ar gyfer ffyrdd cyfyngedig. Asesir pob terfyn cyflymder yn ddiduedd ac yn unol â meini prawf cenedlaethol penodol.

I bennu 'eithriad' i ffordd gyfyngedig, mae'n rhaid i gynghorau lleol gael achos clir a rhesymegol dros wneud hynny sy'n profi bod tystiolaeth gref yn bodoli y byddai cadw terfyn cyflymder uwch yn ddiogel.


Drury New Road ar hyn o bryd yn 20mya yn ôl statws ffordd gyfyngedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried bod y terfyn cyflymder 30mya yn derfyn cyflymder priodol yn mae'r lleoliad hwn ac felly nidyw'n bodloni'r meini prawf na natur ffordd ar gyfer terfyn cyflymder 20mya.

Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig ddydd Gwener yr 01 diwrnod o Rhagfyr 2023

KWilby

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint.
CH7 6NF




## KEY

| | |
|---|---|
| (red line) | Terfyn Cyflymder 30`mya<br>30mph Speed limit |

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION | | |
|---|---|---|---|---|
| No.1 | Change of Speed limit | NW | RF | 23/11/2023 |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL
Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
StreetScene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:


# 30 Speed Limit
# Terfyn Cyflymder 30`mya

# DRURY NEW ROAD, BUCKLEY

Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Contact Name: | Nick Williams | Telephone: | 01352 704642 | |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No: | 01352 70 | |
| Checked by: | Richard Flood | Date: | Dec 2023 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A1: 1:NTS | Drawing No: HT/23/DNRBuckley/201 | | | Phase/Rev: P1 |




**KEY**

Terfyn Cyflymder 30`mya
30mph Speed limit

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386 Flintshire County Council. 2018.

| PRELIMINARY | | APPROVAL | | CONSTRUCTION |
|---|---|---|---|---|
| No.1 | Change of Speed limit | NW | RF | 23/11/2023 |
| | | | | |
| | | | | |
| Ph/Rev | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL
StreetScene

30 Speed Limit
Terfyn Cyflymder 30`mya

DRURY NEW ROAD, BUCKLEY

Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate County Hall Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: | Nick Williams | Telephone: | 01352 704642 |
| Drawn by: | Nick Williams | Fax No. | 01352 70 |
| Checked by: | Richard Flood | Date: | Dec 2023 |
| Scales at A1: 1:NTS | Drawing No: HT/23/DNRBuckley/201 | Sheet 1 of 1 | Phase/Rev C1 |